# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mehefin 3ydd 2025 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Maldwyn Jones, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Gary Thomas, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Rita Jones, Iolo V. Evans a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cynllun Fferm Wynt Foel Fach arfaethedig - **croesawyd swyddogion Coriolis Energy a Chadno Communications i'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad ar y prosiect gan gynnwys yr isod,**
**i)Am leihau'r nifer o dyrbin's i 10 gyda newidiadau i'w maint i gydfynd a'r tirlun.**
**ii) Am symud yr is -orsaf i leoliad newydd.**
**iii) Nifer o archwiliadau o'r safle yn digwydd ar hyn o bryd ac adroddiadau yn cael eu paratoi.**
**iv) Dim manylion pellach am y ffordd bydd y trydan yn cael ei gario i ffwrdd o'r safle ar hyn o bryd.**
**v) Bwriad i gynnal diwrnodau agored ym mis Medi, manylion a lleoliadau i'r gadarnhau.**
**vi) Gobeithio cyflwyno'r cais cynllunio ym mis Mawrth 2026.**

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 6ed 2025) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Archwilio Asedau – **cytunwyd i ofyn i adeiladwr lleol wneud man waith ar loches bws Llanfor.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.
ii) Clybiau Ieuenctid Cymunedol.
iii) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – **yn dilyn trafodaeth cytunwyd i holi'r swyddogion ynglyn a gwneud cais am arian i wneud gwelliannau i fynwent Frongoch.**
iv) Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro – Llandderfel 13/06/25.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Cronfa Cymunedau Eryri.
ii) Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd (2026-2041)

c) Amrywiol.
i) Tescro Stronger Starts – grant.
ii) Clwb Criced Y Bala – cais am gefnogaeth.

v) Ceisiadau Cynllunio
C25/0366/04/LL - Codi dau adeilad i storio deunyddiau garddio, codi cwrt "padel" a chodi modurdy newydd. Fron Heulog, Llandderfel.

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.**

vi) Materion Ariannol
a) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol - **roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.**

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu – hysbyseb Y Cyfnod.**

vii) Materion lleol.
a) Eglwys St. Mor, Llanfor ar werth.
b) Cwyn am swn o felinau gwynt Braichddu
**c) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Gorffennaf 1af yn Neuadd Sarnau.**